# Datganiad yn dod â'r Parth dan Gyfyngiadau â'i ganolbwynt yng nghyfeirnod grid SJ2770139104 i ben.

Cadarnhaodd Prif Swyddog Milfeddygol Cymru fod y ffliw adar pathogenig iawn o'r is-deip H5 yn bresennol mewn dofednod neu garcasau dofednod yng Nghymru, ac mai N1 oedd teip y feirws niwrominidas, yn unol ag erthygl 8(1) o Orchymyn Ffliw Adar (H5N1 mewn dofednod) Cymru) 2006[1] ("y Gorchymyn Dofednod").

Yn unol â'r pwerau yn erthygl 8(2) o'r Gorchymyn Dofednod ac erthyglau 28(5), 29(3) a 34(1) o Orchymyn Ffliw Adar a Ffliw sy'n Deillio o Adar mewn Mamaliaid (Cymru) (Rhif 2) 2006 ("y Gorchymyn Ffliw Adar")[2], cyhoeddodd Gweinidogion Cymru Barth dan Gyfyngiadau â'i ganolbwynt yng nghyfeirnod grid SJ2770139104. Daeth y datganiad i rym am 19:00 ar 2 Tachwedd 2021.

Yn unol ag erthygl 4(1)(b) y Gorchymyn Ffliw Adar, mae Gweinidogion Cymru drwy hyn yn datgan bod y Datganiad y cyfeirir ato yn y paragraff blaenorol wedi'i ddirymu, gan drwy hynny ddod â'r Parth dan Gyfyngiadau y cyfeirir ato hefyd yn y paragraff hwnnw i ben.

Daw'r Datganiad hwn i rym ar 18:00, 3 Rhagfyr 2021.

Llofnodwyd: Christianne Glossop, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru

Dyddiedig: 3 Rhagfyr 2021

O dan awdurdod y Gweinidog Materion Gwledig a'r Gogledd, a'r Trefnydd

[1] Rh.S. 2006/3309 (Cy. 299).
[2] S.I. 2006/2927 (W. 262).